


# Neges o ddiolch am Fuddion a Gostyngiadau i Staff 2023

**Eleni, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cael cefnogaeth hael gan amrywiaeth o ddarparwyr gostyngiadau a buddion ar-lein i staff a busnesau lleol sydd wedi darparu arbedion anhygoel, yn ogystal â chynigion unigryw i gydweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro**




## Gŵyl Deyrnged GlastonBarry 2023

Diolch yn fawr iawn i Mack Events, noddwyr Gŵyl Deyrnged Fyw GlastonBarry 2023, am roi gostyngiad o 20% oddi ar docynnau gŵyl i gydweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro.

Yn 2024, dewiswyd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn Bartner Elusen GlastonBarry ddydd Sadwrn 27 Gorffennaf. Mae rhagor o wybodaeth yma.

## Cwmni Walt Disney

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn anfon diolch enfawr i The Walt Disney Company am ddarparu tocynnau am gyfradd ostyngedig i gydweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro ar gyfer perfformiadau dethol o sioe Disney Aladdin The Musical yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, drwy gydol mis Rhagfyr 2023 ac Ionawr 2024. Rhoddwyd cyfle i gydweithwyr brynu tocynnau am £20 drwy eu cynllun cymunedol newydd 'Eich Sioe Nesaf'.**




## Grŵp Ceir Nathaniel

Mae'r Grŵp Buddion Staff yn ddiolchgar am yr haelioni a'r gefnogaeth barhaus a dderbyniwyd gan Grŵp Ceir Nathaniel yn 2023.

Ar 19 Gorffennaf 2023, cynhaliodd Nathaniel Cars Ddigwyddiad Cerbydau Trydanol (EV) yn Pod yr Elusen Iechyd, y Cyntedd yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Roedd cydweithwyr yn gallu edrych ar yr EV's ar y safle a hefyd trefnu taith brawf.

## Starbucks

Ar 6 Rhagfyr 2023, cynigiodd Starbucks ddiod am ddim i holl staff y GIG i ddathlu ei phartneriaeth barhaus gydag NHS Charities Together. Roedd y cynnig hwn ledled y DU yn rhoi diolch Nadoligaidd am yr holl waith caled a wneir gan staff y GIG ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Trwy gydol y flwyddyn, gall cydweithwyr yn y GIG gael gostyngiad o 10% yn Starbucks gyda'r Cerdyn Blue Light..



**Edrychwch ar arbedion a gostyngiadau buddion staff Caerdydd a'r Fro yma neu drwy sganio'r cod QR**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board



## Pwll a Champfa Ryngwladol Caerdydd



Cynigiodd Pwll a Champfa Ryngwladol Caerdydd dreial am ddim o'u holl gyfleusterau i gydweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro mewn nifer o gynigion Penwythnos Corfforaethol trwy gydol 2023. Gall cydweithwyr elwa ar aelodaeth gorfforaethol am bris gostyngol ym Mhwll a Champfa Ryngwladol Caerdydd am £34/mis sy'n rhoi mynediad llawn i gyfleusterau'r gampfa, dosbarthiadau ffitrwydd, nofio a'r Ystafell Iechyd.

## Lansio 'Fy Mhasbort Iechyd'

Cynhaliodd Gwasanaethau Lles Gweithwyr lansiad 'Fy Mhasport Iechyd' ddydd Iau 16 Tachwedd 2023 yn Adeilad Cochrane, Ysbyty Athrofaol Cymru, a gefnogwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog Dros Gyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, AS. Daeth cynrychiolwyr Buddion Staff i'r lansiad, a rhoddwyd gwybodaeth am yr amrywiaeth eang o ddarparwyr gostyngiadau ar y stryd fawr ac ar-lein sydd ar gael ac enghreifftiau o rai o'r arbedion a'r cynigion anhygoel sydd ar gael i gydweithwyr BIP

Caerdydd a'r Fro. Cefnogodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro y digwyddiad yn hael, lle cafodd cydweithwyr gyfle i ennill taleb 'Caru Siopa' gwerth £50 a thaleb gwerth £25 y gellir ei defnyddio i brynu ffrwythau a llysiau gan Awesome Wales.







## Darparwyr Gostyngiadau Buddion Staff

Yn olaf, hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r holl Ddarparwyr Gostyngiadau Buddion Staff poblogaidd am ddarparu arbedion a gostyngiadau anhygoel i gydweithwyr BIP Caerdydd a'r Fro yn barhaus yn eu siopau ar y stryd fawr ac ar-lein.

BLUE LIGHT CARD

HEALTH SERVICE discounts

NHSDiscountOffers

STAFFBenefits.co.uk

VoucherCodes

SDUK STAFF DISCOUNTS UK HEALTHCARE STAFF BENEFITS www.healthcarestaffbenefits.org

**Edrychwch ar arbedion a gostyngiadau buddion staff Caerdydd a'r Fro yma neu drwy sganio'r cod QR**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board